

Memorandwm Esboniadol i Reoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Diwygio Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2022

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) a Llywodraeth Cymru a chaiff ei osod gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Gweinidogion

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Diwygio Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2022.

Lynne Neagle AS
Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant

7 Medi 2022

RHAN 1

1. Disgrifiad

- 1.1 Bydd Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Diwygio Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2022 (y “Rheoliadau”) yn estyn y cyfnod pontio ar gyfer newidiadau labelu bwyd penodol o ganlyniad i Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd (UE) am 15 mis ychwanegol. Bydd y Rheoliadau'n diwygio deddfwriaeth ddomestig Cymru a chyfraith yr UE a ddargedwir fel y bo'n gymwys yng Nghymru.
- 1.2 Daw'r cyfnod pontio cyfredol ar gyfer y newidiadau labelu bwyd hyn i ben ar 30 Medi 2022. Bydd y Rheoliadau hyn yn estyn diwedd y cyfnod pontio i 31 Rhagfyr 2023 (a chan gynnwys y dyddiad hwnnw hefyd).
- 1.3 O'r herwydd, bydd y gofyniad o ran newidiadau labelu penodol sy'n ymwneud ag Ymadael â'r UE, a'u gorfodi, yn gymwys o 1 Ionawr 2024 ymlaen.

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

- 2.1 Dim.

3. Y cefndir deddfwriaethol

- 3.1 Mae Deddf Diogelwch Bwyd 1990 (adran 16) (ASB 1990) yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru greu rheoliadau ar gyfer gosod gofynion neu waharddiadau, ac fel arall reoleiddio, labelu bwyd, sy'n cynnwys y pwerau i greu darpariaethau canlyniadol neu drosiannol.
- 3.2 Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn wrth arfer y pwerau a roddir gan adrannau 16(1)(a) ac (e) a 48(1)(c) o ASB 1990. O dan 1990, trosglwyddwyd swyddogaethau'r “Ysgrifennydd Gwladol” i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 199/672) ac maent bellach yn arferadwy (mewn perthynas â Chymru) gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 1999/672 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a pharagraff 162 o Atodlen 30 iddi (c. 32).
- 3.3 Mae'r Rheoliadau hefyd yn diwygio mân ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir (fel y diffinnir yn adran 7(6) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (c.16) (EUWA 2018). O'u darllen ynghyd â pharagraff 5 o Atodlen 8 i EUWA 2018, mae'r pwerau a gynhwysir yn FSA 1990 yn caniatáu addasu mân ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir. Diffinnir “addasu” yn adran 20(1) o EUWA 2018 ac mae'n cynnwys “diwygio, diddymu neu ddirymu”.

- 3.4 Mae'r Rheoliadau'n ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad negyddol, a byddant yn dod i rym 21 diwrnod ar ôl y diwrnod y cânt eu gosod.

4. Diben y ddeddfwriaeth a'i heffaith fwriadedig

- 4.1 Bydd y Rheoliadau'n estyn y cyfnod a fydd gan fusnesau i wneud newidiadau labelu penodol o ganlyniad i Ymadael â'r UE. Effaith hyn fydd bod termau labelu UE-ganolog a chyfeiriadau yn yr UE yn cael eu caniatáu ar y farchnad yng Nghymru am 15 mis ychwanegol.
- 4.2 Bydd estyn y darpariaethau trosiannol yn rhoi 15 mis ychwanegol i fusnesau gydymffurfio â rheolau labelu nad ydynt bellach yn caniatáu defnyddio termau labelu na chyfeiriadau'r UE.
- 4.3 Yr effeithiau penodol yw:
- Cyfeiriadau Gweithredwyr Busnesau Bwyd: mae estyniad i'r darpariaethau trosiannol a weithredir gan yr OS hwn yn golygu y caiff busnesau barhau i ddefnyddio cyfeiriad yn yr UE, Prydain Fawr, neu Ogledd Iwerddon ar gyfer y gweithredwr busnes bwyd ar fwydydd wedi'u pecynnu ymlaen llaw neu gaseinau a werthir yng Nghymru hyd at 31 Rhagfyr 2023 (a chan gynnwys y dyddiad hwnnw hefyd).
 - Nodau adnabod: mae estyniad i'r darpariaethau trosiannol a weithredir gan yr OS hwn yn golygu y caiff busnesau barhau i ddefnyddio'r nod adnabod "UK/EC" hyd nes 31 Rhagfyr 2023 (a chan gynnwys y dyddiad hwnnw hefyd). Mae hyn ar gyfer Cynhyrchion sy'n Dod o Anifeiliaid (POAO) a roddir ar y farchnad yng Nghymru. Nid yw'n berthnasol i gynhyrchion POAO a gynhyrchir yn y DU i'w rhoi ar farchnadoedd yr UE, Gogledd Iwerddon, neu farchnadoedd y tu allan i'r UE.
 - Labelu cig eidion a chig llo: mae estyniad i'r darpariaethau trosiannol a weithredir gan yr OS hwn yn golygu, yng nghyswllt cig eidion a chig llo a werthir yng Nghymru, y caiff busnesau gyfeirio at 'non-EU' os yw'r anifail y daw'r cig eidion neu'r cig llo ohono wedi'i eni, ei fagu, neu ei ladd y tu allan i'r UE, ac nad oes gan y busnes wybodaeth lawn am y wlad, hyd nes 31 Rhagfyr 2023 (a chan gynnwys y dyddiad hwnnw hefyd).
 - Labelu briwgig (geifr, defaid, moch a dofednod): mae estyniad i'r darpariaethau trosiannol a weithredir gan yr OS hwn yn golygu, yng nghyswllt briwgig a werthir yng Nghymru, y caiff busnesau barhau i gyfeirio at 'EU' a 'non-EU' pan na fo'r label yn rhestru pob gwlad tarddiad, hyd nes 31 Rhagfyr 2023 (a chan gynnwys y dyddiad hwnnw hefyd).
 - Labelu cymysgeddau mêl: mae estyniad i'r darpariaethau trosiannol a weithredir gan yr OS hwn yn golygu, yng nghyswllt cymysgeddau mêl a werthir yng Nghymru, y caiff busnesau barhau i ddefnyddio'r geiriad UE-ganolog hyd nes 31 Rhagfyr 2023 (a chan gynnwys y dyddiad hwnnw). Mae hyn yn golygu y caiff busnesau ddefnyddio un o'r canlynol:
 - 'blend of honeys from more than one country' (neu eiriad tebyg)
 - 'blend of EU honeys'

- 'blend of non-EU honeys'
- 'blend of EU and non-EU honeys'
- Labelu olew olewydd: mae estyniad i'r darpariaethau trosiannol a weithredir gan yr OS hwn yn golygu, yng nghyswllt olew olewydd a werthir yng Nghymru, y caiff busnesau barhau i gyfeirio at 'EU' a 'non-EU' pan na fo'r label yn rhestru pob gwlad tarddiad, hyd nes 31 Rhagfyr 2023 (a chan gynnwys y dyddiad hwnnw).
- Labelu ffrwythau a llysiau: mae estyniad i'r darpariaethau trosiannol a weithredir gan yr OS hwn yn golygu, yng nghyswllt cymysgeddau o ffrwythau a llysiau a werthir yng Nghymru, y caiff busnesau barhau i gyfeirio at 'EU' a 'non-EU' hyd nes 31 Rhagfyr 2023 (a chan gynnwys y dyddiad hwnnw).
- Labelu wyau: mae estyniad i'r darpariaethau trosiannol a weithredir gan yr OS hwn yn golygu y caiff busnesau ym Mhrydain Fawr barhau i farcio wyau nad ydynt yn bodloni rheoliadau masnachu wyau domestig fel 'non-EC standard' neu 'non-UK standard' hyd nes 31 Rhagfyr 2023 (a chan gynnwys y dyddiad hwnnw).
- Gwin: mae estyniad i'r darpariaethau trosiannol a weithredir gan yr OS hwn yn golygu, yng nghyswllt gwin a werthir yng Nghymru, y caiff busnesau barhau i ddefnyddio manylion mewforiwr neu botelwr yn yr UE hyd nes 31 Rhagfyr 2023 (a chan gynnwys y dyddiad hwnnw).
- Bwydydd wedi'u rhewi'n gyflym: mae estyniad i'r darpariaethau trosiannol a weithredir gan yr OS hwn yn golygu, yng nghyswllt bwydydd wedi'u rhewi'n gyflym werthir yng Nghymru, y caiff busnesau barhau i ddefnyddio cyfeiriad yn yr UE hyd nes 31 Rhagfyr 2023 (a chan gynnwys y dyddiad hwnnw).
- Toddyddion echdynnu: mae estyniad i'r darpariaethau trosiannol a weithredir gan yr OS hwn yn golygu, yng nghyswllt toddyddion echdynnu a werthir yng Nghymru, y caiff busnesau barhau i ddefnyddio cyfeiriad yn yr UE hyd nes 31 Rhagfyr 2023 (a chan gynnwys y dyddiad hwnnw).

4.4 Caiff deddfwriaeth debyg ei gosod yn Lloegr a'r Alban. O ganlyniad, bydd y ddeddfwriaeth hon yn darparu cysondeb ar draws Prydain Fawr.

5. Ymgynghoriad

- 5.1 Cynhaliodd yr Asiantaeth Safonau Bwyd, Defra, a Safonau Bwyd yr Alban ymgynghoriad ar y cyd trwy ymgysylltu â chyrrff cynrychioliadol yn y diwydiant bwyd rhwng 18 Awst 2022 a 30 Awst 2022.
- 5.2 Cadarnhaodd yr ymatebion i'r ymgynghoriad na fydd estyniad yn cael unrhyw effaith ar fusnesau nac yn darparu budd cymedrol iddynt o ran costau.
- 5.3 Cyflawnodd yr ymgynghoriad y gofyniad i ymgynghori yn Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 y Cyngor Ewropeaidd a Senedd Ewrop, sy'n gosod egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith bwyd, gan sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop a gosod gweithdrefnau diogelwch

mewn perthynas â diogelwch bwyd wrth baratoi a gwerthuso'r rheoliadau i'r graddau y bônt yn ymwneud â bwyd.

6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

- 6.1 Mae'r Rheoliadau'n creu darpariaethau arbed trosiannol sy'n cadw'r ddeddfwriaeth gyfredol at ddibenion cyfyngedig.
- 6.2 Mae'r Rheoliadau yn pennu dyddiad y bydd rheolau labelu penodol yn gymwys at ddibenion cydymffurfio a gorfodi, gan ganiatáu amser i fusnesau wneud newidiadau yn ystod cyfnod trosiannol.
- 6.3 Oherwydd natur y Rheoliadau, nid oes angen Asesiad Effaith Rheoleiddiol.
- 6.4 Mae hyn yn unol â'r eithriadau a amlinellir yng nghod asesiad effaith rheoleiddiol Gweinidogion Cymru ar gyfer is-ddeddfwriaeth. Yn benodol, mae'r cod yn nodi nad oes angen Asesiad Effaith Rheoleiddiol pan fo'r is-ddeddfwriaeth "*yn Orchymyn Cychwyn neu'n Rheoliadau Cychwyn neu Reoliadau sydd hefyd yn gwneud darpariaeth neu arbedion canlyniadol (cyn belled nad yw'r arbedion hyn wedi'u gwneud drwy osod costau ychwanegol ar barti arall)*".
- 6.5 Mae'r Rheoliadau'n estyn y cyfnod a fydd gan fusnesau i wneud newidiadau labelu penodol o ganlyniad i Ymadael â'r UE. O ganlyniad, nid ydynt yn gosod unrhyw gostau ychwanegol, a gallai busnesau wneud arbedion trwy barhau i ddefnyddio labeli gyda chyfeiriadau yn yr UE a therminoleg yr UE hyd nes 31 Rhagfyr 2023 (a chan gynnwys y dyddiad hwnnw).